



CAPEL SALEM, DOLGELLAU

TAFLEN GORFFENNAF/AWST 2021

Rhifyn 229

Annwyl Gyfeillion,

Unwaith eto daeth fy nhro i'ch cyfarch drwy gyfrwng y daflen fisol. Mae ambell ddigwyddiad y cyfeiriaf atynt yn dyddio'n ôl i fis Mai. Gobeithio bod pob un ohonoch wedi derbyn eich brechlynnau rhag Cofid-19 erbyn hyn. Mae'r amrywiolyn Delta wedi ei ddarganfod yn ddiweddar mewn llawer man yng Ngogledd Cymru a thrwy ein gwlad gyda'r sefyllfa yn gwaethygu eto ac yn achosi pryder i ni i gyd. Bydd rhaid parhau i fod yn ofalus a chydymffurfio â'r canllawiau.

Nos Fercher, 26ain o Fai daeth newyddion trist i law am farwolaeth ein hannwyl gyd-aelod Gwenfair Catrin Jenkins yn ei chartref, wedi salwch byr, yn 79 mlwydd oed. Roedd Gwenfair yn wraig annwyl, ddiffuant a bonheddig gyda gwen siriol a chynnes, yn wraig ofalgar i'w phriod Peredur a mam ofalus Catrin ac Owain, mam yng nghyfraith Emlyn a Helen a nain gariadus Dafydd, Llio, Gwen a Griff. Bydd colled enfawr ar yr aelwyd ac yn Salem. Cafodd yrfa amrywiol mewn sawl maes, gan gynnwys byd addysg a byd masnach. Cynhaliwyd ei gwasanaeth angladd preifat yn Salem prynhawn dydd Sadwrn, Mehefin 5ed dan ofal y Parchedig Megan Williams gyda'r Parchedig Tim Webb yn arwain ar lan y bedd ym mynwent Llanfachreth.

Ar Fehefin 15fed, derbyniwyd newyddion trist am farwolaeth ein cyfaill Eifion Owen, Hafoty a fu farw yn 77 mlwydd oed yng nghartref Nyrsio y Rhallt, y Trallwng, ar ôl dioddef afiechyd hir a chreulon. Roedd yn ŵr ffyddlon, ymroddedig i Meirwen, yn dad hoff i Martin a David-Huw a'i ddyweddi Cara, ac yn daid balch i Elenid Alaw a Rhian Mair. Roedd Eifion yn gymeriad hoffus, poblogaidd a diddorol ei sgwrs. Fe aeth ei yrfa yn y banc ag ef i sawl man gan orffen yn rheolwr Banc y NatWest yn Nolgellau a Bermo ble roedd yn uchel ei barch gan ei gydweithwyr. Bu Eifion yn aelod ffyddlon yn Salem hyd nes i afiechyd ei gaethiwo. Cafodd ofal arbennig gan Meirwen am flynyddoedd cyn iddo symud, oherwydd ei gyflwr, i gartref Bodawen ym Mhorthmadog. Cynhaliwyd ei angladd yn breifat yn Salem dydd Iau, Gorffennaf 1af gan ddilyn yn Amlosgfa Aberystwyth. Derbynnir rhoddion yn ddiolchgar tuag at Gymdeithas Lewy Body drwy law Glyn Rees a'i Fab, 5 Sgwâr Eldon, Dolgellau.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r ddau deulu yn eu galar.

Llongyfarchwn Angharad Gwalchmai (Davenport gynt) a'i gŵr Paul, ynghyd â'r teulu ehangach, ar enedigaeth mab bach, sef Lewis Idris, yn ddiweddar, brawd bach i Hywel Rhys.

Llongyfarchiadau hefyd i Rhiell Elidir ac Ywain Myfyr ar eu priodas a phob dymuniad da i chi eich dau.

Hefyd, llongyfarchiadau i Huw a Rhian Jones, Dolserau sydd wedi dathlu eu priodas aur yn ddiweddar- ymlaen rŵan am y diemwnt!

Da oedd deall fod Mrs Eira Williams wedi cael symud o Ysbyty Tregaron i Ysbyty Gymunedol Dolgellau. Brysiwch wella, Eira.

Deallaf hefyd fod Mr Erfyl Ll. Davies, Cefn Coed wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Whiston, Lerpwl ond ei fod adref bellach ac yn gwella'n dda iawn, da oedd clywed hynny.

Anfonwn ein cofion at aelodau sydd yn gaeth i'w haelwydydd a phreswylwyr Cefn Rodyn. Gobeithio y bydd yr amodau yn caniatáu i aelodau a chyfeillion Salem sydd yn byw ymhell i ymweld â'r hen dref yn ystod yr haf.

Cadwch yn saff gyda gobaith y cawn eich gweld yn fuan.

Bendith arnoch,

Gareth Roberts (ar ran y Blaenoriaid)

OEDFAON MIS GORFFENNAF (Tair oedfa yn unig)

Dydd Sul, Gorffennaf 4ydd - 10.00 y bore - Oedfa Zoom dan ofal y Parchedig Jim Clarke, Llanfairpwll

Dydd Sul, Gorffennaf 11eg - 10.00 y bore - Oedfa yn y capel dan arweiniad y Parchedig Patrick Slattery

Dydd Sul, Gorffennaf 18eg - 10.00 y bore - Oedfa yn y capel dan arweiniad y Parchedig David Owens, Ponciau

OEDFAON MIS AWST (Dwy oedfa yn unig)

Dydd Sul, Awst 8fed - Uno yn y Tabernacl - Oedfa dan ofal y Parchedig Huw Dylan

Dydd Sul, Awst 15fed - Uno yn Salem - Oedfa dan ofal y Parchedig Patrick Slattery

PHILEMON

Myfyrdod gan y Parchedig Patrick Slattery

Llythyr personol oddi wrth Paul yr Apostol i ddyn o'r enw Philemon o Golosae yng ngwlad Twrci yw hwn. Un bennod sydd i Lyfr Philemon, mae'n cymryd pum munud i'w ddarllen, ond eto mae ymhlith llyfrau anghofiedig y Beibl. Masnachwr llwyddiannus oedd Philemon ac yn berchen ystâd helaeth. Trwy bregethu Paul fe ddaeth Philemon yn Gristion ac yn gyfaill a chefnogwr iddo hefyd. Nid oedd adeiladau gan yr eglwys gynnar yng Ngholosa, felly yng nghartref Philemon y cynhaliwyd gwasanaethau Cristnogol. Yn nyddiau Paul roedd



caethwasiaeth yn gyffredin iawn ac roedd cynifer â thrigain miliwn o gaethweision yn yr Ymerodraeth Rufeinig. Pan fyddwn yn meddwl am ogoniant Groeg a Rhufain dylem gofio mai ar gaethwasiaeth y seiliwyd eu llwyddiant. Er bod rhai caethweision yn cyrraedd swyddi uchel a chyfrifol, truenus iawn oedd cyflwr y mwyafrif. Pethau oeddynt, nid pobl, a gwae nhw os cymerai'r meistri yn eu herbyn.

Roedd Philemon yn cadw caethwas o'r enw Onesimws. Ystyr ei enw yw 'buddiol'. Ond ni fu'n fuddiol iawn i'w feistr oherwydd fe redodd i ffwrdd gydag arian Philemon yn ei boced. Cyrhaeddodd Rhufain lle'r oedd Paul yn y carchar a rhywsut fe ddaeth Onesimws i gysylltiad ag ef a chyn bo hir daeth Onesimws yn Gristion. Daeth y ddau'n gyfeillion agos a thybïai Onesimws bod hunllef caethwasiaeth drosodd iddo. Ond gwyddai Paul fod Onesimws wedi bradychu ymddiriedaeth Philemon trwy ddwyn ei arian, ac y byddai'n rhaid iddo fynd yn ôl i Colosae i wneud iawn am ei gam. Ni allai Onesimws dderbyn hyn ac ni fynnai fynd yn ôl oherwydd ofnai y byddai Philemon yn ei gosbi. Y gosb dan y gyfraith Rufeinig oedd marwolaeth. Ond nid oedd troi ar Paul. 'Mae'n rhaid i ti ddychwelyd oherwydd mae'n rhaid i'r Gristion wneud y peth iawn. A chofia bod dy feistr Philemon yn Gristion hefyd'.

Cytunodd Onesimws ddychwelyd ar yr amod y byddai Paul yn ysgrifennu llythyr at Philemon i ofyn iddo dderbyn ei was yn ôl. A dyna gefndir sut a pam yr ysgrifennodd Paul y llythyr hwn. Mae yn llythyr gwahanol iawn i'w llythyrau eraill oherwydd ei fod yn llythyr personol a phreifat. Nid llythyr i drafod athrawiaeth na phroblemau eglwysig sydd yma, ond llythyr cyfeillgar gydag apêl daer at gyfaill a chydweithiwr annwyl. Mae'n ddechrau trwy gyfarch Philemon a'r eglwys sy'n cyfarfod yn ei dŷ. Mae'n canmol Philemon am y pethau da a glywsai amdano ac yna daw at ei apêl ar ran Onesimws '**sydd fel mab i mi yn y ffydd**'. (adnod 10). Apêl ar sail cariad yw, ar iddo gymryd Onesimws yn ôl.

'Mae'n bosib mai'r rheswm pam gawsoch chi eich gwahanu am ychydig oedd er mwyn i ti ei gael yn ôl am byth!

¹⁶ Dim fel caethwas o hyn ymlaen, ond yn llawer gwell na hynny - fel ffrind annwyl sy'n credu yn Iesu Grist yr un fath â ti. Mae wedi bod yn werthfawr iawn i mi, ond bydd yn fwy gwerthfawr fyth i ti, fel gwas ac fel brawd sydd fel ti yn credu yn yr Arglwydd'. (Adnodau 15,16). Yna mae'n addo gwneud yn iawn am unrhyw drosedd a wnaeth Onesimws a thalu unrhyw ddyled a oedd arno, '**fe ddalaf fi yn ôl**'. (adnod 18), Mae hyn yn dangos cwrteisi a haelioni. Paul yn cadarnhau ei gonsyrn am ei gyd-ddyn. Mae Paul wedi cael beirniadaeth annheg gan lawer sy'n meddwl bod llythyrau a diwinyddiaeth Paul yn rhwystr i neges syml yr Efengyl. Mae'r llythyr hwn yn dangos tosturi a thynnerwch Paul, ac yn ôl William Barclay, 'Philemon yw'r llythyr mwyaf boneddigaidd gan y perffeithiaf o foneddigion'. Mae Paul yn gorffen ei llythyr trwy ofyn i Philemon baratoi llety iddo gan ei fod yn gobeithio cael ei ryddhau o'r carchar cyn hir. Sut gallai Philemon wynebu Paul os byddai wedi gwrthod ei gais ar ran Onesimws? Er nad ydym yn gwybod diwedd y stori mae'n siŵr bod Onesimws wedi mynd yn ôl gyda llythyr Paul a phrin iawn y gallai Philemon fel Cristion wrthod maddau a derbyn Onesimws yn ôl, nid fel caethwas bellach ond fel brawd yng Nghrist. Dyma Gristnogaeth ar waith. Sut gallwn sôn am gymod gyda Duw os na allwn gymodi â'n gilydd?

Tybed nad ydy pob un ohonom yn debyg i Onesimws, yn anfuddiol ac yn ddyledwyr i Dduw. '**Gweision ydyn ni, sydd ddim ond yn gwneud beth mae disgwyl i ni ei wneud**'. (Luc 17:10). Gogoniant yr Efengyl yw'r neges nad oes rhaid i neb aros fel y mae. Trwy allu'r Efengyl daeth Onesimws yn ddyn newydd ac yn aelod buddiol o'r eglwysi. Mae'r un gallu yn newid a thrawsnewid bywydau heddiw. '**Mae'n achub hyd yr eithaf y pechaduriaid gwaethaf**'. Diolch am y fath Efengyl sy'n cynnig gras a chariad a maddeuant i ni. Boed iddi gael cyfle i fod ar waith yn ein bywydau ni bob dydd. '**Cymer Arglwydd, cymer fi byth yn unig, oll i ti**'.